

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Nos Lun Medi 5ed 2016 am 7.30 y.h.

Cofnodion

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Gari Jones

Cafwyd trafodaeth ar gychwyn y cyfarfod yn mynegi pryder nad oes digon yn bresennol yn y cyfarfod. Penderfynwyd dal ymlaen gyda'r cyfarfod gan fod angen talu anfonebau.

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Edmund Rees, Paul Weston, Cynghorydd Sirol Dilwyn Roberts ac Enid Williams (Clerc).
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Gorffennaf:** penderfynwyd gohirio cadarnhau'r Cofnodion tan y mis nesaf pan fydd mwy yn bresennol.
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion:**
 - 5.1. Steven Teale methu a bod yn bresennol yn y cyfarfod ail drefnu ar gyfer mis nesaf.
 - 5.2. Eirian Roberts yr Archwilydd Mewnol wedi cytuno i wirio cysoniadau banc yn chwarterol.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. CBSC – wedi derbyn ail daliad o'r presept **£1217.00**.
7. **Zurich Insurance:**

Derbyniwyd cynnig gan y cwmni yswiriant am y flwyddyn nesaf fel a ganlyn:
£265.90am flwyddyn, os gwneud cytundeb 3 blynedd £258.09 (y flwyddyn), os gwneud cytundeb 5 mlynedd £250.26 (y flwyddyn). Penderfynwyd ar y cytundeb 5mlynedd a talu'r **£250.26** gyda siec rhif **100273** eleni a chael cefnogaeth weddill y Cynghorwyr ar hun yn y cyfarfod nesaf.
8. **Talu Anfonebau:**
 - 8.1. CBSC – Sgip Gymunedol £185.00 + TAW £37.00 = **£222.00** gyda siec rhif **100272**.
 - 8.2. Talu costau'r clerck am 4 mis o Ebrill i Orffennaf **£126.00** gyda siec rhif **100270**.
 - 8.3. One.com – gwefan - £20.80 + TAW £4.16 = **£24.96** gyda siec rhif **100271**.

Disgwylwn gadarnhad ar y taliadau yn y cyfarfod nesaf.
9. **Mantolen Ariannol:**

Archwiliad Blynyddol am y flwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2016. Derbyniwyd yn ôl a chadarnhawyd adroddiad glân ac eithrio - angen i'r RFO ardystio Adran 1 y Ffurflen Flynyddol cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo, angen adolygiad o'r rheolau mewnol sy'n cynnwys asesiad risg yn ystod y flwyddyn, angen monitro'r gyllideb yn rheolaidd.
10. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**

Cafwyd adroddiad o'r diweddara yng ngwaith y Cyngor Sir.
11. **Unrhyw fater arall:**
 - 11.1. Draeniau di blocio wrth Sign.
 - 11.2. Llinellau gwyn dal heb ei peintio.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Hydref 3ydd 2016 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd Alun Owen
Cadeirydd

Dyddiad 07.11.2016

